CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 1176 (Cy.124)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, at ddibenion y swyddogaeth sydd gan Gyngor Gofal Cymru o dan adran 54(3) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ('y Ddeddf') yn unig, fod personau penodol i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. O dan adran 54(3) o'r Ddeddf rhaid i Gyngor Gofal Cymru hyrwyddo mewn perthynas â Chymru safonau ymddygiad a safonau ymarfer uchel ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol, a safonau uchel ar gyfer eu hyfforddiant.

Y personau a ddisgrifir yn is-baragraffau (a) i (g) o adran 55(3) o'r Ddeddf yw'r rhai sydd i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at y dibenion sydd newydd eu crybwyll. Maent yn cynnwys personau sy'n ymgymryd â gwaith at ddibenion swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (neu â darparu gwasanaethau sy'n debyg i'r rhai sy'n cael eu darparu wrth arfer y swyddogaethau hynny); personau sy'n ymgymryd â darparu gofal personol i unrhyw berson; personau penodol sy'n ymwneud ag asiantaethau gwaith cymdeithasol; personau sy'n cael eu cyflogi mewn canolfannau dydd; a myfyrwyr penodol sy'n astudio gwaith cymdeithasol.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 1176 (W.124)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations provide that for the purposes only of the function of the Care Council for Wales under section 54(3) of the Care Standards Act 2000 ('the Act') certain persons are to be treated as social care workers. Under section 54(3) of the Act the Care Council for Wales shall promote in relation to Wales high standards of conduct and practice among social care workers, and high standards in their training.

The persons who are to be treated as social care workers for the purposes just mentioned are those described in sub-paragraphs (a) to (g) of section 55(3) of the Act. Those include persons engaged in work for the purposes of a local authority's social services functions (or in the provision of services similar to those provided in the exercise of those functions); persons engaged in the provision of personal care for any person; certain persons involved with social work agencies; persons employed in day centres; and certain social work students.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 1176 (Cy.124)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *25 Ebrill 2002* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 55 (3) a 118(5) a (6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**a**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru a sefydlwyd o dan adran 54(1) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000.

**Personau sydd i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol**

**3.** At ddibenion y swyddogaeth sydd gan y Cyngor o dan adran 54(3) o'r Ddeddf yn unig mae personau o unrhyw un o'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a) i (g) o baragraff (3) o adran 55 o'r Ddeddf i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

(a) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol ("appropriate Minister"). Diffinnir yr "appropriate Minister" yn adran 121(1). Mae'n golygu'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru (mae adran 5(b) yn darparu mai ystyr "y Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru); mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'n golygu'r Ysgrifennydd Gwladol. Diffinir "*regulations*" yn adran 121(1) o'r Ddeddf.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 1176 (W.124)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *25th April 2002* |
| *Coming into force* | *30th April 2002* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 55(3) and 118(5) and (6) of the Care Standards Act 2000(**a**) hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 30th April 2002.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"the Act" means the Care Standards Act 2000;

"the Council" means the Care Council for Wales established by section 54(1) of the Act.

**Persons to be treated as social care workers**

**3**. For the purposes only of the function of the Council under section 54(3) of the Act persons of any of the descriptions in sub-paragraphs (a) to (g) of paragraph (3) of section 55 of the Act are to be treated as social care workers.

(a) 2000 c.14. The powers are exercisable by the appropriate Minister. The appropriate Minister is defined in section 121(1). It means the Assembly in relation to Wales (section 5(b) provides that "the Assembly" means the National Assembly for Wales); in relation to England, Scotland and Northern Ireland it means the Secretary of State. See section 121(1) of the definition of "*regulations*".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

25 Ebrill 2002

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

25th April 2002

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly for Wales

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

**2002 Rhif 1176 (Cy.124)**

**GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU**

Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

**2002 No. 1176 (W.124)**

**SOCIAL CARE, WALES**

The Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of "Social Care Worker") (Wales) Regulations 2002

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090508-3

9 780110 905082

**£1.75**

W0054/06/02 ON